**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**14 RHAGFYR 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 14 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Andy Dunbobbin (yn lle Mike Lowe) a Mared Eastwood (yn lle Hilary McGuill)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Bob Connah
Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; a Phrif Weithredwr (absennol ar fusnes y Cyngor)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (Llywodraethu); ac Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Ar gyfer cofnod rhif 50
*Cynrychiolwyr o Sefydliad Cymunedol yng Nghymru:*
Colin Evans – Partner Datblygu
Richard Williams - Prif Weithredwr
Tom Morris – Swyddog Ymchwil a Chyllid
*Swyddogion Cyngor Sir Y Fflint:*
Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu
Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Dechnegol

Ar gyfer cofnod rhif 52
Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 50. SYLWADAU RHAGARWEINIOL

Mynegodd y Cynghorydd Heesom siom nad oedd y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn bresennol. Dywedodd bod materion yn codi o gyfarfod diweddar y Cyngor Sir a oedd yn ymwneud ag adborth o gyfarfod arbennig y Pwyllgor yn gynharach yn y mis.

Yn dilyn egluro bod y Prif Weithredwr a’r Arweinydd yn mynychu cyfarfod yng Nghaerdydd, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd cynigion cyllideb Cam 2 (testun y cyfarfodydd y cyfeiriwyd atynt) ar y rhaglen hon ac y byddai cofnodion y cyfarfod arbennig ar gael maes o law.

**51. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni dderbyniwyd dim.

**52. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017.

Cofnod rhif 39: Cyfarfod blaenorol - Atgoffodd y Cynghorydd Jones ei fod am i'r Prif Weithredwr siarad ag ef am yr achos 'cuckooing' yr oedd wedi cyfeirio ato.

Cofnod rhif 41: Bwrdd Y Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint – Dywedodd y Cynghorydd Jones, yn dilyn ail-wirio dolen gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bod dolenni Bwrdd Y Gwasanaeth Cyhoeddus yr holl ardaloedd lleol, ar wahân i'r rheiny yn nwyrain Sir y Fflint, 'heb eu cwblhau'.

Cofnod rhif 42: Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – anfonwyd e-bost gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn gynharach yn y dydd a oedd yn rhoi ymateb llawn i'r drafodaeth ar filiau Treth y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**53. CRONFA WADDOL GYMUNEDOL SIR Y FFLINT – ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynodd Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol yr adolygiad perfformiad blynyddol o Gronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a reolir ac a weinyddir gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn dilyn trosglwyddiad 16 o gronfeydd ymddiriedolaeth addysgol yn 2013. Ers hynny, mae elfen gyfalaf Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint wedi cynyddu o 18% a'r Gronfa wedi dyfarnu gwerth £34,000 o grantiau; ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl cyn y trosglwyddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnig, sef i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ymgymryd â'r un cyfrifoldebau dros Gronfa'r Degwm Deiran Clwyd ar ran Cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam. Eglurwyd cylch gorchwyl ehangach y ceisiadau grant gan Gronfa'r Degwm Deiran Clwyd.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru - Colin Evans (Partner Datblygu), Richard Williams (Prif Weithredwr) a Tom Morris (Rheolwr Cyllid ac Ymchwil) – a rhoddwyd cyflwyniad ar waith y Gronfa, gan drafod y canlynol:

1. Llwyddiannau'r Sefydliad Cymunedol ar draws Cymru ac yn benodol yn Sir y Fflint
2. Hanes a Throsolwg o'r Gronfa
3. Perfformiad Ariannol y Gronfa
4. Gwasanaethau Ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol

5. Crynodeb o’r Gwobrau Grant a ddyfarnwyd yn 2016 a 2017
6. Trosoledd ar gyfer Sir y Fflint
7. Astudiaethau Achos

Ers trosglwyddo’r asedau, roedd Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint wedi cyflawni cyfanswm elw o 35% ac yn ddiweddar nodwyd gwerth o tua £210,000 i elfen gyfalaf y Gronfa. Rhoddwyd eglurhad mewn perthynas â’r strategaeth fuddsoddi a oedd yn ymdrin â risgiau yn gymedrol ac yn destun craffu rheolaidd. Nodwyd manylion y grantiau a ddyfarnwyd yn 2016/17 yn yr Adroddiad Effaith a ychwanegwyd at y rhaglen.

Gwnaeth y Cynghorydd Dunbobbin sylw mewn perthynas â hyrwyddo Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a oedd yn cynnwys rhwydwaith o hwyluswyr cymunedol a gwefannau. Eglurwyd eu bod wedi mabwysiadu ymagwedd risg isel i ddechrau er mwyn adeiladu’r Gronfa. Rhoddwyd terfyn uchaf ar y grantiau a ddyfarnwyd o £750 i unigolion a £1,000 i grwpiau gwirfoddol. Awgrymodd y Cynghorydd Dunbobbin y byddai’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol hefyd yn elwa o glywed y cyflwyniad hwn.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Hughes, rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â chyfansoddiad y panel (o ran cynrychiolaeth leol) wrth asesu cryfder y ceisiadau i benderfynu os dylid dyfarnu grant rhannol neu lawn.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at broblemau gyda rhai sieciau wedi’u hanfon drwy’r post. Eglurwyd mai dim ond rhai sieciau yn unig oedd heb gyrraedd pen eu taith ac ni adroddwyd unrhyw achos o dwyll. Ers mis Ebrill 2017, caiff y grantiau eu talu’n uniongyrchol i gyfrifon banc, gan fod y dull hwn yn fwy diogel ac effeithlon.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones a fyddai unrhyw newid i’r meini prawf ar gyfer grantiau gan y ddwy Gronfa. Cafodd wybod y byddai’r ddwy gronfa yn cael eu rhedeg ar wahân yn ôl eu hamcanion eu hunain a nodwyd yn y ddogfen llywodraethu y cytunwyd arni gan y Cyngor a Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Ni fyddai unrhyw newid i’r broses ymgeisio oherwydd dim ond cyfrifoldebau rheoli a gweinyddu fyddai’n trosglwyddo.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Johnson, rhoddodd Mr Morris sicrwydd o adolygiadau blynyddol er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw fuddsoddiad anfoesol uniongyrchol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r cynrychiolwyr am eu presenoldeb a’u cyflwyniad manwl.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn diolch i gynrychiolwyr y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru am eu cyflwyniad a rhoi gwybod i’r Cabinet:

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo gwaith y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a dyfarniad grantiau lleol fel rhan o Gronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo trosglwyddiad prosesau rheoli a gweinyddu Cronfa'r Degwm Deiran Clwyd ar gyfer Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru o 1 Ebrill 2018; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo trosglwyddiad prosesau rheoli a gweinyddu grantiau Sir y Fflint a ddyfarnwyd gan Gronfa'r Degwm i'w cyfuno â'r broses sydd eisoes ar waith ar gyfer Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint.

## 54. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU – CHWARTER 2

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer ail chwarter 2017/18. Bu gwelliant parhaus o ran presenoldeb ers cyflwyno'r polisi newydd ac aethpwyd i'r afael â'r cynnydd mewn absenoldebau, oherwydd straen ac iselder, gyda mentrau amrywiol. Croesawyd cynnydd o ran nifer y gwerthusiadau perfformiad a oedd yn cael eu cwblhau, yn ogystal ag adrodd yn gywir. Nodwyd tuedd gadarnhaol mewn perthynas â gwariant ar weithwyr asiantaeth, a oedd yn cynrychioli llai na 1% o'r bil cyflogau, ac atgoffwyd pawb am yr adolygiad o'r contract hwnnw yn y dyfodol.

Wrth ddiolch i'r Uwch Reolwr ac ei thîm am yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Mullin fod y gwelliant mewn presenoldeb yn adlewyrchu'r lefelau uwch o reolaeth a pherchnogaeth sy'n cael eu harddangos gan reolwyr.

Croesawodd y Cynghorydd Jones y canfyddiadau hyn ac atgoffodd bawb o'r targed cyffredinol i gwblhau 100% o werthusiadau perfformiad ar gyfer gweithwyr cymwys.

Cwestiynodd y Cynghorydd Woolley y gwahaniaeth rhwng dyddiau absennol gweithwyr ysgolion a gweithwyr nad ydynt mewn ysgolion a'r rhesymau dros absenoldebau yn gysylltiedig â straen. Cytunodd yr Uwch Reolwr i ymchwilio i'r mater hwn, er mae'n debyg fod hyn oherwydd i ysgolion weithio yn ystod cyfnodau tymor ysgol yn unig. Mewn perthynas â'r pwynt olaf, anogwyd gweithwyr i fanteisio ar y cymorth oedd ar gael, gan gynnwys 'Care First' a oedd yn cynnig cymorth ag ymdopi ag ystod eang o broblemau personol. Gofynnodd y Cynghorydd Woolley am fwy o wybodaeth am hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r 'dyddiau a gollwyd drwy bortffolio' yn gallu nodi meintiau'r portffolios i ddarparu gwell cyd-destun ac fyddai'r 'Pedwar Rheswm Uchaf' yn gallu nodi'r amrywiant rhwng bob categori. Cytunodd yr Uwch Reolwr ymchwilio i weld a fyddai'n bosibl i ddarparu adroddiad mwy manwl ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, gan nodi'r angen am gyfrinachedd i sicrhau nad oedd modd adnabod unrhyw unigolyn.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Holgate, cytunodd yr Uwch Reolwr i ddarparu ymateb ar wahân ar gostau yn deillio o ffigwr trosiant y gweithlu, a oedd yn uwch na'r arfer, yn bennaf oherwydd trosglwyddiad Arlwyo a Glanhau Newydd. Siaradodd y Prif Swyddog am gael gwared ar swyddi drwy eu dileu a thrwy ymddeoliad cynnar a oedd yn ystyried yr effaith ar wasanaeth a'r disgwyliad i adennill costau gadael o fewn dwy flynedd.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Hughes, am y dangosfwrdd proffil oedran, eglurodd yr Uwch Reolwr fod y data wedi'i adolygu gan reolwyr i ddeall tueddiadau a rhoi gwybod i gynllunio gweithlu.

Mewn perthynas â'r graffiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gofynnodd y Cynghorydd Johnson a fyddai'n bosibl i gynnwys ffigyrau ar gyfer unigolion ag anableddau. Dywedodd yr Uwch Reolwr bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer gweithwyr a oedd wedi datgelu anabledd a bod consesiynau ar gael, er enghraifft wrth fynychu apwyntiadau. Gofynnodd y Cynghorydd Johnson a fyddai modd i'r proffil oedran ar gyfer athrawon gynnwys dadansoddiad o'r holl swyddi rhan amser a llawn amser. Cytunodd yr Uwch Reolwr i edrych ar sut y gellid cyflwyno'r wybodaeth hon ar gyfer cyfarfod penodol yn y dyfodol yn unig.

Soniodd y Cadeirydd yn benodol am y categorïau proffil oedran ar gyfer athrawon a chafodd wybod fod rhain yn safonol ar draws y system. Mewn perthynas â phresenoldeb hwyr, cyfrifoldeb y rheolwyr oedd monitro eu timau yn unol â'r polisi gweithio'n hyblyg.

Crynhowyd y pwyntiau a godwyd gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd a chytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer Chwarter 2, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed, yn enwedig i leihau absenoldebau salwch;

(b) Bod yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am gynhyrchu dadansoddiad manylach ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, gan gydnabod y byddai manylder o'r fath yn anymarferol ar gyfer bob chwarter; a

(c) Bod yr Uwch Reolwr a Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd am gysylltu i bennu cyfarfod addas er mwyn cyflwyno'r adroddiad manwl.

## 55. <u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 6)</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 fel yr oedd ym Mis 7 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Ar Gronfa'r Cyngor, rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa net yn ystod y flwyddyn £1.262m yn uwch na'r gyllideb, a oedd yn gynnydd o £0.115m ers Mis 6. Roedd y newidynnau arfaethedig mwyaf sylweddol ar gyfer cost uchel y lleoliadau ychwanegol y tu allan i'r sir a'r oedi wrth weithredu effeithlonrwydd cymhorthdal bysiau yn ystod y flwyddyn, a oedd wedi'u gosod yn erbyn trosglwyddiad costau cludiant ysgol o Strydwedd a Chudliant.

Ar arbedion cynlluniedig, amcangyfrifwyd y byddai 93% wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Byddai angen dadansoddi effeithiau y risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ar gyllideb 2018/19 ac fel y trafodwyd yn ystod cyfarfod diweddar y Cyngor Sir byddai'r symiau ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a'r Gronfa Gofal Canolraddol yn cael eu cynnwys o fewn cynigion Cam 2. Cynlluniwyd gwaith pellach ar faterion sylweddol eraill megis caffael cludiant lleol a chludiant ysgol yn dilyn y gweithdy i Aelodau, y costau cynyddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir a chwrdd â'r targedau incwm. Yn dilyn diweddariad ar gronfeydd wrth gefn a balansau, nodwyd bod disgwyl i'r gronfa wrth gefn o £20.3m a glustnodwyd haneru erbyn diwedd y flwyddyn, ac amlygwyd Strategaeth y Gyllideb Wrth Gefn a Balansau Ysgolion fel y prif faterion.

Ni adroddwyd unrhyw newid sylweddol ar y Cyfrif Refeniw Tai, rhagamcanwyd y byddai'r gwariant net £0.035m yn is na'r gyllideb.

Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i ddarparu gwybodaeth am 'Flintshire Enterprise Ltd' a oedd yn ymddangos ar y tabl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am y lefelau incwm gan drwyddedau parcio Neuadd y Sir a oedd yn is na'r disgwyl a chafodd wybod bod y rhain yn rhan o gynigion cyllideb Cam 2 i'w hystyried yn y Flwyddyn Newydd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y tabl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a dywedodd y dylid cyflwyno'r cronfeydd hynny nad oeddent yn dangos unrhyw newid i ddiwedd y flwyddyn (sy'n gyfanswm o £2.45m) yn ôl i'r gyllideb i'w defnyddio yn hytrach na gadael iddynt barhau yn awtomatig. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y tabl wedi'i gynnwys mewn adroddiadau chwarterol, ac fel rhan o gynllunio rheolaeth ariannol, cadwyd y symiau am resymau amrywiol ac roeddent yn destun adolygiad.

Cynigodd y Cynghorydd Jones y dylid trin y balansau ar refeniw'r un fath â chyfalaf ac os nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol, dylai'r gwasanaeth orfod ailymgeisio. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Heesom. Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol i ddeall goblygiadau hyn.

Ar Atodiad 1 yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai'n ddefnyddiol i ddangos yr amrywiant mewn coch. Cyfeiriodd at dri amrywiant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Anableddau – Adnoddau a Gwasanaethau Rheoledig; Gwasanaethau Iechyd Meddwl – Lleoliadau Preswyl; a Datblygiad ac Adnoddau – Uned Diogelu) â chyfanswm o £700K o danwariant, lle bo'r cam gweithredu yn nodi i 'barhau i fonitro ac adolygu'. Cynigodd atgyfeirio y rhain at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w harchwilio ac adrodd yn ôl arnynt gan nad oedd yr eglurhad yn ddigonol o ystyried sefyllfa cyllideb y Cyngor. Eglurodd Swyddogion bod llawer o feysydd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu harwain gan y galw, gyda rhwymedigaethau i gyflawni dyletswyddau statudol a bod trosglwyddiadau yn cael eu hadrodd ar draws y gwasanaethau.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i drosglwyddo pryderon am effeithiau ariannol oedi ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a ffioedd meysydd parcio y Fflint, er mwyn. Mewn perthynas â'r pwynt diwethaf, darparodd

y Prif Swyddog (Llywodraethu) eglurhad byr am y cefndir a byddai'n gofyn am ymateb fwy manwl gan y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant).

Dywedodd y Cynghorydd Heesom fod angen i Aelodau dderbyn mwy o fanylder am werthusiad y gyllideb sylfaenol ar gyfer pob portffolio er mwyn cynorthwyo â dealltwriaeth o gynigion Cam 2. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd hyn yn ymarferol oherwydd y nifer sylweddol o ganolfannau cost gwaelodol na fyddai'n cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at fanylder y datganiadau gwytnwch a rannwyd yn ddiweddar gydag Aelodau. Ymatebodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i ymholiadau ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Strategaeth y Gyllideb Wrth Gefn a Statws Sengl, gan ddweud y byddai adolygiad terfynol o'r holl gronfeydd wrth gefn yn asesu digonolrwydd ar gyfer anghenion y Cyngor. Ar chwyddiant, roedd y prif faterion, megis cynnydd o ran ynni, wedi'u cynnwys yn rhagolwg 2018/19.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Woolley bwysigrwydd trywydd archwilio ysgrifenedig o benderfyniadau'r pwyllgor i arddangos cywirdeb. Mynegodd ei bryderon mewn perthynas ag eglurder annigonol o gamau gweithredu ar amrywiant, gan dynnu sylw at absenoldeb cam gweithredu ar Gludiant.

Eglurwyd y ddau argymhelliad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Jones a derbyniwyd cefnogaeth y Pwyllgor. Yn ystod trafodaeth, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd terfynau amser yn caniatáu digon o amser i'r pwyntiau hyn gael eu cynnwys mewn adroddiad ysgrifenedig i'r Cabinet ac y byddai, yn hytrach, yn anfon e-bost at Arweinydd y Cyngor a swyddogion statudol, gan gynnwys Aelodau'r Pwyllgor.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 Mis 7 a chadarnhau, ar yr achlysur hwn, y materion i'w cyflwyno gerbron y Cabinet:

(a) Dylid trin y balansau refeniw yn yr un modd â chyfalaf, os nad yw'r gyllideb yn cael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'n rhaid i'r gwasanaeth ailymgeisio ar gyfer y cyllid hwnnw. (Cynigodd y Swyddog 151 i lunio adroddiad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol a fydd yn nodi goblygiadau dull o'r fath, cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor); a

(b) Dylid atgyfeirio y mater o danwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y dangosir ar dudalennau 93 a 94 yr adroddiad (Gwasanaethau Anabledd - Adnoddau a Gwasanaetha Rheoledig, Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Lleoliadau Preswyl; a Datblygiad ac Adnoddau - Uned Diogelu, â chyfanswm o £700K) at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w harchwilio ac adrodd yn ôl. Nid yw 'parhau i fonitro ac adolygu' yn gam gweithredu digonol o ystyried sefyllfa cyllideb y Cyngor ar danwariant a gorwariant.

**56. <u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Heesom a fyddai modd dwyn ymlaen cyfarfod, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ionawr 2018, i ystyried diweddariad ar sefyllfa

ariannol y Cyngor gan gynnwys y symiau canlyniadol o unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyngor am dderbyn ei Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar 20 Rhagfyr ac ni fyddai o bosib yn derbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol tan ddyddiad diweddarach. Awgrymodd y dylai'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ddosbarthu nodyn i Aelodau wedi iddynt dderbyn y wybodaeth, gan gydnabod y byddai hyn efallai yn y Flwyddyn Newydd.

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn agored i'r holl Aelodau er mwyn ystyried yr eitemau cyllideb.

Cytunwyd:

- Byddai'r adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu manwl, a drafodwyd yn gynharach, yn cael ei drefnu ar gyfer 15 Chwefror 2018.
- Byddai'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei drefnu ar gyfer 15 Chwefror 2018.
- Rhoddir cadarnhad os yw'r cyfarfod ymgynghori ar y gyllideb ar ddiwedd mis Ionawr am fynd rhagddo.
- Byddai Adroddiad Monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor ym mis Mawrth yn cynnwys eithriadau a adroddwyd i'r holl bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, yn ôl y gofyn yn y cyfarfod blaenorol.
-

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda diwygiadau;

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn cael amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

## 57. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.55pm)

…………………………
**Cadeirydd**